Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU

Gwybodaeth i gynrychiolwyr cyfreithiol rhieni

SEFYDLOGRWYDD CYNNAR CYMRU: GWYBODAETH I GYNRYCHIOLWYR CYFREITHIOL RHIENI

Gosod y sylfeini ar gyfer ystyriaeth gynnar

Yn aml, mae'n rhaid i fabanod a phlant yn y system ofal symud sawl gwaith tra bod y llysoedd yn penderfynu pwy fydd yn gofalu amdanynt yn y tymor hir, ac yn aml mae hyn yn digwydd ar adeg pan fo diwrnodau ac wythnosau wir yn bwysig. Yn ôl yr ymchwil, mae'r tarfu hwn yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar iechyd meddwl a datblygiad y plentyn.

Mae SCC yn fframwaith lle mae plentyn yn cael ei leoli gyda theulu sydd wedi cael cymeradwyaeth lawn fel gofalwyr maeth a rhieni mabwysiadol. Rydych yn cael y wybodaeth hon oherwydd mae un o'ch cleientiaid wedi cael gwybod bod SCC yn cael ei ystyried fel opsiwn ar gyfer eu plentyn.

Cyn yr achos

- Os oes posibilrwydd y gallai fod angen ystyried lleoli plentyn, mae SCC yn un o'r opsiynau y dylai gweithiwr cymdeithasol y plentyn a chyfreithwyr yr awdurdod lleol ei ystyried yn y cyfnod cyn yr achos, ochr yn ochr â mesurau sefydlogrwydd eraill i asesu rhieni ac ymchwilio i aelodau o'r teulu ehangach.
- Gellir ystyried SCC ar gamau diweddarach hefyd, er enghraifft ar ddiwedd asesiad preswyl neu pan fydd tarfu ar leoliad y person cysylltiedig (Rheoliad 26 Lleoliad) yn ystod achos gofal.

Opsiynau posibl eraill lle gellid ystyried Sefydlogrwydd Cynnar Cymru:

- Gellid ystyried SCC hefyd mewn rhai achosion pan fydd plentyn yn cael ei ildio, neu wedi cael ei ildio. Bydd yr amgylchiadau penodol hyn yn cael sylw ar wahân ac mae gwybodaeth benodol ar gael. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Canllawiau Arfer Da ar gyfer Asiantaethau Mabwysiadu a Cafacass Cymru: Plant a gaiff eu hildio i'w mabwysiadu, a chadw ati.
- Wedi gwneud y Gorchymyn Gofal, pan fydd tarfu ar leoliad maeth gyda pherson cysylltiedig neu darfu ar Leoliad gyda Rhieni, ac mae'r cynllun wrth gefn yn gynllun mabwysiadu

Gweler **Siart Llif 2 SCC: Cynllunio gofal ac atgyfeirio gydag opsiynau posibl o'r enedigaeth, yn ystod achos ac ar ôl achos**.

I'r plentyn, mae SCC yn cael gwared ar y tarfu a'r trawma sy'n deillio o symudiadau niferus, trwy leoli'r plentyn gyda gofalwyr SCC sydd wedi cael cymeradwyaeth ddeuol fel gofalwyr maeth a mabwysiadwyr. Mae hyn yn golygu y bydd symudiad llyfn o leoliad maethu i leoliad mabwysiadu os bydd y llys yn cytuno ar gynllun mabwysiadu ar gyfer y plentyn, a na fydd yn rhaid symud y plentyn oddi wrth y gofalwyr y mae wedi ffurfio cwlwm gyda nhw.

Gyda SCC, y gofalwyr sy'n wynebu'r holl risgiau a byddant yn llwyr ymwybodol o'r rhain; ymhob achos, y llys sy'n penderfynu a ddylai plentyn ddychwelyd at ei deulu neu gael ei fabwysiadu, ar sail y dystiolaeth a gyflwynir gan weithwyr proffesiynol a'r teulu.

Yn ogystal â chyfle i ffurfio cwlwm ynghynt gyda gofalwyr a allai fynd ymlaen i fod yn rhieni i'r plentyn, mae gan ofalwyr SCC y budd o ddod i adnabod rhieni'r plentyn ac i ddarganfod mwy am eu cefndir a'r rhesymau y daeth y plentyn i gael gofal. Rydym yn gwybod o ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth fod hyn yn gymorth mawr i ddatblygu empathi a derbyniad, ac mae'n gosod sylfeini cadarnhaol ar gyfer cyfathrebu'n agored ac ar gyfer perthnasoedd parhaus.

Nid yw'r ffaith y gallai'r gofalwyr ddod yn rhieni mabwysiadol i'r plentyn, yn effeithio ar statws y lleoliad maethu na'r blaenoriaethau ar gyfer y lleoliad maethu; nid yw chwaith yn effeithio ar gwrs yr achos gofal a phenderfyniad y llys am gynllun gofal y plentyn ar ddiwedd yr achos gofal. Dylid tawelu meddwl rhieni fod eu plentyn yn cael gofal da, bod cyswllt yn cael ei drefnu'n dda ac y bydd yr ailuno neu'r lleoli gyda'r teulu ehangach yn cael eu hwyluso mewn ffordd broffesiynol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, os mai dyna fydd penderfyniad y llys.

Er nad oes gan rieni hawl i wrthwynebu lleoliad SCC, gan ei fod yn lleoliad maeth sydd wedi'i reoli'n iawn, gwneir pob ymdrech i oleuo rhieni, eu cynghorwyr cyfreithiol, Cafcass Cymru a'r llys, os oes angen, ynghylch buddion y lleoliad i'r plentyn, a hefyd i'r rhieni.

Sefydlogrwydd Cynnar Cymru

SIART LLIF 2: Gofal SCC Cynllunio Gofal ac Atgyfeirio gydag opsiynau posibl o'r enedigaeth, yn ystod achos ac ar ôl achos

lle gallai penderfyniad i leoli plentyn mewn lleoliad SCC fod yn briodol

pwyntiau lle dylid rhoi gwybodaeth i rieni a'u cyfreithwyr am SCC. Dweud wrth Cafacass Cymru fel sy'n briodol

yn berthnasol ar draws pob opsiwn posibl ar gyfer lleoliad SCC

Lleoliad SCC Posibl 1

Atgyfeiriad a phenderfyniad rheoli am ba mor addas fyddai dechrau achos a chynllun gofal SCC. Penderfyniadau i'w cofnodi'n llawn

Rhan 4 Cynllun Gofal a Chymorth

Cynhadledd Amddiffyn Plant cyn-geni / prif ffrwd

Cyn Grŵp Teulu

Cyfarfod Llwybr / Proses cyn-achos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus lle ystyrir SCC a phenderfynir a ydyw'n addas.

Cyfarfod cyn-achos gyda rhieni a'u cyfreithwyr. Ystyriwch Ran 19 (Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010)

GCP yn trafod SCC yn fwy manwl gyda rhieni

Gwrandawiad Cyntaf / Cais Gorchymyn Gofal Interim. Penderfyniad am gynllun llys yr ALl ar gyfer lleoliad SCC

*GCP a gweithiwr cymdeithasol Canfod Teulu yn cwrdd â darpar ofalwyr SCC er mwyn rhoi gwybodaeth am gyfarfod / lleoliad posibl a threfnu Asesiad Paru os yn bosibl. Gweler protocol y fframwaith Paru

Gorchymyn Gofal Interim

**Cyfarfod cynllunio pontio / cyfarfod rhwng rhieni a gofalwyr SCC cyn y cyfarfod cyswllt 1af

Lleoli'r plentyn gyda gofalwyr SCC

***Rhieni'n cwrdd â'r goruchwylydd cyswllt / sefydlu trefniadau cyswllt. Y llys yn cyfarwyddo'r cyswllt ac unrhyw waith asesu arall

Lleoliad SCC Posibl 2

Penderfyniadau i'w cofnodi'n llawn

Dychwelyd at y llys

Fel * a ** colofn 2 gydag unrhyw ddiweddariadau

Lleoli'r plentyn gyda gofalwyr SCC

Fel *** colofn 2 gydag unrhyw ddiweddariadau

Asesiad preswyl yn diweddu'n negyddol neu Leoliad Cysylltiedig Rh 26 yn tarfu cyn cwblhau'r asesiad neu mae'r asesiad LlC yn negyddol. Nid oes unrhyw leoliadau cysylltiedig eraill ar gael

Rheini mewn asesiad preswyl gyda'r plentyn neu'r plentyn mewn lleoliad gyda pherson cysylltiedig lleoliad Rh 26 Rh RhCGLlAA (C) 2015

Lleoliad SCC Posibl 3

Penderfyniadau i'w cofnodi'n llawn

Plentyn mewn gofal maeth prif ffrwd

Ni all lleoliad gofal maethu barhau

Ymhellach ymlaen yn yr achos ac mae mabwysiadu'n edrych yn fwy tebygol

Fel * a ** colofn 2 gydag unrhyw ddiweddariadau

Lleoli'r plentyn gyda gofalwyr SCC

Fel *** colofn 2 gydag unrhyw ddiweddariadau

Y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr asiantaeth yn penderfynu a ddylid lleoli'r plentyn i'w fabwysiadu ai peidio. Os oes cynllun ailuno, cytuno ar oruchwyliaeth a chymorth. Paratoi cynllun pontio at y rhieni/teulu

Lleoliad SCC Posibl 4

Penderfyniadau i'w cofnodi'n llawn

Gwrandawiad Terfynol i gynnwys cynllun wrth gefn ar gyfer SCC os yn briodol

Penderfynu bod y plentyn yn dychwelyd at y rhieni neu'n cael ei leoli ar GLl / GGA / GA gydag aelod o'r teulu ehangach

Rhiant/ Lleoliad gyda pherson cysylltiedig yn chwalu. Cynllun wrth gefn i fabwysiadu

Fel * a ** colofn 2 gydag unrhyw ddiweddariadau

Lleoli'r plentyn gyda gofalwyr SCC

Fel *** colofn 2 gydag unrhyw ddiweddariadau

Penderfyniad cynllun i fabwysiadu. Rhoi'r Gorchymyn Lleoli

Gweler protocol y Fframwaith Paru

Dych-welyd at y llys i roi gwybod ac i gyflwyno cais am Orch-ymyn Lleoli

Y pwynt y mae gofalwyr SCC yn dod yn ddarpar fabwysiadwyr

Panel Paru

Y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn yr asiantaeth yn dod i benderfyniad am y paru

Lleoliad SCC yn dod yn lleoliad mabwysiadol

Darpar fabwysiadwyr yn cyflwyno cais i'r llys am orchymyn mabwysiadu ar ôl i'r plentyn fod yn y lleoliad am 10 wythnos (fel arfer mae hyn yn digwydd ar unwaith gan y bydd y plentyn wedi cael ei faethu am gyfnod hirach na hyn)

Cynnydd gwaith asesu a chyswllt dan oruchwyliaeth reolaidd. Rhoi cymorth / cwnsela i rieni a gofalwyr Sefydlogrwydd Cynnar Cymru yn ôl yr angen

RHANNU GWYBODAETH A CHEFNOGAETH I RIENI

Cyn yr achos

- Wedi ymgynghori â rhieni a chynrychiolwyr cyfreithiol rhieni, cytunwyd, petai SCC yn cael ei ystyried, y dylai gweithiwr cymdeithasol y plentyn roi gwybodaeth i rieni, a hynny cyn gynted â phosibl, ac, yn ddelfrydol, mewn fformatau gwahanol er mwyn darparu ar gyfer dulliau dysgu gwahanol. Felly, datblygwyd gwybodaeth ysgrifenedig ar ffurf taflenni, yn ogystal ag e-fodiwl byr, wedi'i recordio, ar gyfer rhieni.

Yn yr holl wybodaeth i rieni, mae yna gyngor i drafod y wybodaeth gyda'u cyfreithiwr. Roedd rhieni yr ymgynghorwyd â nhw yn gofyn bod copi o'r wybodaeth a roddir iddynt yn cael ei rhoi i'w cyfreithiwr hefyd, er mwyn sicrhau tryloywder a chyfle i drafod.

Darperir 3 thaflen i rieni ar gamau cynnar a chyn achos, ac yn y ddwy gyntaf mae yna friff a gwybodaeth gyffredinol am SCC. Mae copi o'r daflen hon wedi ei chynnwys gyda'r wybodaeth hon.

Bydd yr ail daflen (ac e-fodiwl wedi'i recordio) yn cael eu rhannu gyda rhieni cyn yr achos a dylid eu cefnogi i ddeall bod hwn yn un o'r opsiynau sy'n cael ei ystyried, a beth mae'n ei olygu iddyn nhw a'u plentyn. Mae copi o'r daflen hon wedi ei chynnwys gyda'r wybodaeth hon.

Cynlluniwyd y drydedd daflen yn arbennig ar gyfer rhieni sy'n ystyried ildio'u plentyn i'w fabwysiadu. Os yw'n briodol, gellir cynnig hwn ar gais.

- Bydd angen i weithiwr cymdeithasol y plentyn sicrhau bod Gwarcheidwad y plentyn yn gwybod am SCC ac yn gwybod bod hwn yn cael ei ystyried fel opsiwn ar gyfer y plentyn penodol hwn.
- Mae ymchwil yn tanlinellu buddion mynediad at gymorth annibynnol sydd wedi'i oleuo o ran trawma, gan ymarferwyr sydd ddim yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y plentyn. Felly, dylai gweithwyr cymdeithasol y plentyn ystyried atgyfeiriad cynnar at brosiectau fel Reflect bob tro, a'i drafod gyda'r teulu.
- Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn llenwi dogfen baru gynhwysfawr ar gyfer SCC cyn lleoli'r plentyn gyda gofalwr SCC ar sail maethu. Bydd hon yn cynnwys asesiadau risg ar gyfer y lleoliad ac ar gyfer cyswllt.

Achos gofal

Bydd gweithiwr cymdeithasol y plentyn yn llunio cynllun cyswllt yn ystod unrhyw achos a bydd yn ei rannu gyda rhieni'r plentyn.

Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyswllt gydag aelodau ychwanegol o'r teulu.

Adeg ailuno

Pan fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud i ailuno gyda rhieni neu gydag aelodau o'r teulu ehangach, bydd gofalwyr SCC yn gweithio gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn, y gweithiwr cymdeithasol mabwysiadu a'r rhieni er mwyn sicrhau bod symudiad y plentyn yn llyfn ac yn llwyddiannus.

Gorchymyn Lleoli

Os yw'r llys yn penderfynu mai mabwysiadu yw'r cynllun gorau ar gyfer y plentyn, yna byddai'r gofalwyr sydd wedi bod yn gofalu am y plentyn yn mynd ymlaen i fod yn fabwysiadwyr. Byddai hyn yn golygu bod y plentyn yn symud yn llyfn; byddai ganddynt y sicrwydd o gael eu mabwysiadu heb gael eu hypsetio trwy orfod symud at deulu a chartref newydd.

Mewn achos lle lleolir plentyn gyda gofalwr maeth sy'n aelod o'r teulu ar Orchymyn Gofal neu gyda rhieni (neu'r rheiny sydd â Chyfrifoldeb Rhiant) ar Orchymyn Gofal: os mai cynllun mabwysiadu yw'r cynllun wrth gefn, bydd SCC yn cael ei ystyried.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
c/o Cyngor Dinas Caerdydd
Ystafell 409 Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd CF10 4UW

F: 029 2087 3927
www.adoptcymru.com

AFA CYMRU
association for fostering and adoption
cymdeithas ar gyfer maethu a mabwysiadu

AFA Cymru
Uned G14, Ty Antur
Navigation Parc,
Abercynon CF45 4SN

F: 02920 761155
www. afacymru.org